Cyngor 8/1/2024

95. **AWDURDOD I DALU**

Derbyniwyd anfoneb gan Archwilio Cymru am y gwaith archwilio am y flwyddyn 2020/21 yn y swm o £550. Tynnodd y Clarc sylw fod codiad o £350 wedi bod er yr anfoneb dalwyd ar 3ydd Ebrill, 2023, am archwilio'r cyfrifon 2019/2020.
Penderfynwyd gwneud ymholiadau pam y codiad uchel. Hefyd gofyn i Mel abOwain o Un Llais Cymru beth oedd y sefyllfa ynglyn a'r oediad mewn derbyn y ffurflen flynyddol yn ôl gan yr Archwilwyr.

Yn y cyswllt hwn, cyflwynwyd taenlen yn dangos y gwariant a'r derbyniadau o fis Ebrill, 2023 hyd 9fed Ionawr, 2024. Nodwd fod £7,732.14 yn cyfrif cyfredol a £4,151.34 yng nghyfrif y fynwent.
Adroddodd y Clarc y byddai'r gwariant hyd ddiwedd Mawrth, 2024, a hynny o'r cyfrif cyfredol, oddeutu £2,200 yn cynnwys tâl am archwilio 2020/21; ceisiadau am gyfraniadau ariannol (gweler cofnod 96); hurio ystafelloedd cyfarfod; cyflog y Clarc a'r HMRC; archebu cyfrifiadur, argraffydd a throsglwyddo data (ffigwr o £700).
Nodyn yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor derbyniwyd anfoneb gan J.A. Pozzi am farbio :

Torri Comin Bryncroes	£1,050.00 + TAW
Llwybr Bach Botwnnog (4 awr)	£ 68.00 + TAW
Torri gwrych o amgylch lloches bws Sarn (3 awr)	£ 51.00 + TAW

Bydd y gwariant a ragdybir felly hyd ddiwedd Mawrth, 2024 yn £3,370 yn hytrach na'r £2,200 fel yr adroddwyd yn y cyfarfod. Felly amcangyfrifir y bydd gan y Cyngor £4,360 o gyllid i'w gario i'r flwyddyn ariannol nesaf.

O gyfrif y fynwent mae £550 + TAW yn ddyledus i J.A. Pozzi. Felly rhagwelir y bydd oddeutu £3,500 yn cael ei gario i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Trafodwyd y praesept am y flwyddyn 2024/25 yn wyneb y ffigyrau uchod **penderfynwyd,** yn wyneb yr hinsawdd economaidd, **fod y Cyngor yn glynu at yr un praesept a'r flwyddyn hon sef £6,500.**
Nodyn – mae'r Cyngor eisoes wedi clustnodi'r angen am loches bws ger y Feddygfa ym Motwnnog ac os bydd cyllid bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach.